

❖ ‘Y BOBL OEDD YN RHODIO MEWN TYWYLLWCH’

*Un o Drigolion Jerwsalem***Darllen: Eseia 9:2, 6–7****Myfyrdod**

‘Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr.’

Ydych chi’n cofio’r geiriau yna?

Mae’n anodd peidio cofio.

Ond beth yw eu hystyr tybed?

A ydych chi wir yn credu y bydd pethau’n newid,

y daw’r Meseia

ac o’r diwedd sefydlu ei deyrnas?

Credais hynny fy hun unwaith.

Roedd yn arfer gennyf ddarllen yr adran hon yn aml,

cynhesodd fy nghalon,

teimplais iasau disgwyliadau mawr,

wrth feddwl y byddai Duw yn trawsnewid ein byd.

Fydd hi ddim yn hir eto,

daw, fe ddaw y dydd.

Ond aeth diwrnod arall heibio,

mis arall,

blwyddyn arall yn dod ac yn mynd,

a gyda threigl y blynyddoedd colodd ffydd ei sglein,

a doedd dim ar ôl bellach

ond caddug yn cuddio ffynhonnell cysur.

Beth ddigwyddodd?

A oeddwn wedi camddeall rhywbeth,

a wnaeth y proffwyd gamgymeriad,

a’i weledigaeth yn ddim byd mwy na breuddwyd gwag?

Credwch fi, nid dyna’r hyn rwyf am ei gredu,

ond, er mwyn popeth, edrychwch o’ch cwmpas –

y pechod,

y dioddefaint,

y galar,

yr aflendid –

a dywedwch wrthyf yn onest,

lle mae Duw yn hyn i gyd?

Allwch chi weld y goleuni a addawodd?

Ni allaf fi.

Disgwyliais fel llawer un o’r blaen,

dywedais wrthyf fy hun na chaiff drygioni’r gair olaf,

fod yn rhaid i ddaioni goncro,

ond does dim arwydd yn unman,

dim i godi calon.

Er hynny, rhaid i mi ddal i obeithio;

rhywsut, rhywfodd, rhaid cadw’r ffydd.

Os nad oes dim mwy na’r hyn a welwn,

yna Duw a’n helpo!

Mae gennyf fy amheuan,

nid yw’n hawdd,

ond tra bo llygedyn o ffydd ar ôl,

rwyf am barhau i obeithio,

a dal ati i weddïo:
tyred, Arglwydd,
tyred!

Gweddi

O! Dduw grasol,
mae'n anodd gweld goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch.
Mae cymaint o anghyfiawnder a gorthrwm yn ein byd,
cymaint o drachwant ac eiddigedd,
balchder, rhagfarn a drygioni.
Er cymaint y ceisiwn ymddiried ynot,
y mae cymaint sy'n tanseilio'n ffydd.
Estyn di dy law i'r tywyllwch,
gan ddwyn cymorth a iachâd, gobaith ac adferiad.
Tyred, O! Arglwydd, i'n byd,
a boed i oleuni dy gariad ddisgleirio yn ein calonnau,
ac yng nghalonnau pawb,
er gogoniant i'th enw.

Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies